

Ymchwiliad Llifogydd Adran 19

Digwyddiad Llifogydd Rhagfyr 23^{ain} 2020

Dinas Powys, Bro Morgannwg

Adroddiad Terfynol

Tachwedd 2021

www.jbaconsulting.com

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad yma wedi ei gynhyrchu yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar Gyngor Bro Morgannwg (CBM) dan Adran 19 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Ddeddf yn nodi, "Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae rhaid i'r awdurdod llifogydd lleol (ALL), i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol, ymchwilio:

- a) pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol a
- b) a yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer neu'n bwriadu arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd " ".

Mae'r ymchwiliad Adran 19 yma yn darparu adroddiad ffeithiol o'r digwyddiad storm a ddigwyddodd ar y 23ain o Ragfyr 2020 a'r llifogydd canlynol yng nghymuned Dinas Powys. Mae'r ymchwiliad yn ffocysu ar yr ardaloedd preswyl o amgylch Ffordd Caerdydd (A4055) yng nghanol Dinas Powys ac yn adolygu tystiolaeth a ddarpawyd gan ymatebwyr a preswylwyr ynglyn a'r digwyddiad llifogydd. Mae hefyd wedi ei hysbysu gan ddadansoddiad data Adran 19 a gynhyrchwyd gan JBA Consulting ym mis Mawrth 2021.

Mae'r adroddiad dadansoddiad data Adran 19 yn nodi bod priddoedd eisoes yn dirlawn o ganlyniad cyfres o stormydd a ddigwyddodd yn ystod mis Rhagfyr, cyn y glaw ar Ragfyr y 23ain.

Cofnododd y medrydd glaw cyfagos ar Rostiroedd Cog gyfnod byr a dwys o law yn gychwynnol, rhwng 09:00 a 10:00. Fodd bynnag, cychwynnodd y prif gyfnod o law am 12:45 a chariodd ymlaen tan 18:00, gyda 47.8mm o law yn cwmpo yn ystod y cyfnod 5.25 awr yma, yn rhoi dwysedd cyfartalog o 9.1mm yr awr. Y dwysedd uchaf yr awr oedd 14.4mm rhwng 14:00 a 15:00. Roedd y dwysedd glaw yn llai na 10mm yr awr rhwng 13:15 a 15:30 a rhwng 15:45 a 17:00. Adroddwyd bod y storm yn gyfwerth i ddigwyddiad glaw 1 mewn 20 mlynedd a gynhyrchodd gyfnod dychwelyd afonol o 10 i 20 mlynedd.

Yn dilyn y digwyddiad llifogydd, dosbarthodd CBM ffurflenni digwyddiad llifogydd i oddeutu 684 eiddo ledled ardal Dinas Powys, yn ogystal a chynnal cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gyda preswylwyr drwy guro drysau. O'r 208 ffurflen digwyddiad llifogydd a ddychwelwyd i GBM (cyfradd dychwelyd o 30%), nodwyd bod 98 eiddo wedi eu llifogi'n fewnol, gyda adroddiadau bod 22 adeilad allanol a 74 gardd wedi'u llifogi.

Tarddiad y llifogydd oedd y digwyddiad storm trwm a achosodd llifogydd afonol a dwr arwyneb. Gorlifodd glannau Afon Tregatwg a'r East Brook mewn nifer o fannau o fewn Dinas Powys, yn cynnwys ar Greenfield Avenue, St Cadoc's Avenue, a Sunnycroft Lane. Cafodd systemau dwr arwyneb a carthffosiaeth eu gorlethu gan achosi llifogydd mewn eiddo yn ardaloedd preswyl Cae'r Odyn a Brookside, a gwaethygu llifogydd afonol lle roedd dwr arwyneb yn methu draenio yn ardaoedd preswyl St Cadoc's Avenue, Elm Grove Place a Greenfield Avenue. Mae ffactorau achosol eraill yn cynnwys draeniad dwr arwyneb yn bacio yn ôl gan atal draeniad effeithiol, a chyflwr rhai priffyrdd a systemau draenio dwr arwyneb DCWW (Dŵr Cymru).

Mae'r adroddiad hwn yn argymhell fod CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn asesu hyfywedd opsiynau i reoli risg llifogydd yn Ninas Powys; i DCWW asesu hyfywedd storio all-lein i system dwr arwyneb Cae'r Odyn; ac i archwiliad i gyflwr a glanhau y priffyrdd a systemau dwr arwyneb a charthffosiaeth DCWW. Mae hefyd yn argymelledig i GBM ystyried dymchwel y bont droed segur ar yr East Brook ac i GNC adolygu eu amserlen cynnal a chadw i'r nant.



Offices at

Coleshill
Doncaster
Dublin
Edinburgh
Exeter
Haywards Heath
Isle of Man
Limerick
Newcastle upon Tyne
Newport
Peterborough
Saltaire
Skipton
Tadcaster
Thirsk
Wallingford
Warrington

Registered Office
1 Broughton Park
Old Lane North
Broughton
SKIPTON
North Yorkshire
BD23 3FD
United Kingdom

+44(0)1756 799919
info@jbaconsulting.com
www.jbaconsulting.com
Follow us:  

Jeremy Benn Associates
Limited

Registered in England
3246693

JBA Group Ltd is certified to:
ISO 9001:2015
ISO 14001:2015
ISO 27001:2013
ISO 45001:2018



